Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2018 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Parc Busnes Llanelwy

YN BRESENNOL
Richard Fairhead, PSTC, Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân, Cynrychiolydd y Gweithwyr (Cadeirydd)
Y Cyng. Bryan Apsley, Cynrychiolydd y Cyflogwr
Julie Brown, Pennaeth Cyllid, yno i gynghori
Parry Davies, Undeb yr FBU, Cynrychiolydd y Gweithwyr
Geraint Hughes, Cymdeithas y Swyddogion Tân, Cynrychiolydd y Gweithwyr
Y Cyng. John Brynmor Hughes, Cynrychiolydd y Cyflogwr
Blythe Roberts, Undeb yr FBU, Cynrychiolydd y Gweithwyr
Paul Scott, Cymdeithas y Swyddogion Tân, Cynrychiolydd y Gweithwyr
Y Cyng. J Rodney Skelland, Cynrychiolydd y Cyflogwr
Alwen Davies, Swyddog Cyswllt Aelodau, Cofnodydd

YMDDIHEURIADAU
Ruth Simmons, PSTC, Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân, Cynrychiolydd y Gweithwyr

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF A MATERION YN CODI

2.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Ebrill 2017 eu cymeradwyo'n gofnod cywir ac nid oedd unrhyw faterion yn codi.

2.2 O ran yr agwedd hyfforddi, cadarnhawyd y byddai dadansoddiad o anghenion hyfforddi a'r dogfennau cysylltiol yn cael eu hanfon eto at bob aelod.

3 Y MODIWL AR GYNNAL CYFRANIADAU AELODAU

3.1 Aeth Pennaeth Cyllid â'r aelodau drwy'r modiwl ar gynnal cyfraniadau aelodau, ac yna roedd yr asesiad wedi'i gwblhau'n llwyddiannus.

3.2 Dyma'r amcanion dysgu:

- pwysigrwydd cynnal a monitro cyfraniadau
- y gofynion cyfreithiol ar gyfer cynnal cyfraniadau
- beth ddylid ei gofnodi er mwyn i'r cynllun fod yn gallu monitro'r modd y mae cyfraniadau'n cael eu talu
- sut i fonitro'r modd y mae cyfraniadau'n cael eu talu
- sut i reoli cyfraniadau sy'n orddyledus
- delio ag achosion o fethu â thalu.

4 Y MODIWL AR DDARPARU GWYBODAETH I AELODAU A PHOBL ERAILL

4.1 Aeth y Pennaeth Cyllid â'r aelodau drwy'r modiwl ar ddarparu gwybodaeth i aelodau a phobl eraill, ac yna roedd yr asesiad wedi'i gwblhau'n llwyddiannus.

4.2 Dyma'r amcanion dysgu:

- y gofynion cyfreithiol o ran darparu gwybodaeth i aelodau a phobl eraill
- pwy sydd â hawl i gael yr wybodaeth
- pa wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu
- pryd y mae'n rhaid darparu'r wybodaeth
- sut dylid darparu'r wybodaeth
- pa mor bwysig yw cael systemau effeithiol ar gyfer darparu gwybodaeth.

5 Y DIWEDDARAF AM YR WYBODAETH SY'N CAEL EI DARPARU I'R AELODAU

5.1 Rhoddodd y Pennaeth Cyllid wybod i'r aelodau fod gwybodaeth am bensiynau yn cael ei darparu i'r staff drwy gyhoeddiadau mewnol fel y briff wythnosol i'r staff a'r cylchgrawn i'r staff, sef Y Fflam. Mae'r wybodaeth yn cael ei hailadrodd am rai wythnosau er mwyn sicrhau bod y staff yn gallu ei deall a gwneud ymholiadau os oes angen.

5.2 Mae'r aelodau hefyd yn gallu gweld eu cofnodion pensiwn eu hunain ar-lein ynghyd â'u datganiad buddion blynyddol. Dyma eu cyfle i sicrhau bod eu manylion yn gywir. Ym mis Mai 2016, cafodd archwiliad mewnol ei gynnal i edrych ar gywirdeb data. Rhoddir ystyriaeth i ba mor aml y dylid cynnal archwiliad o'r fath.

5.3 Awgrymwyd y dylid cynnal y seminar pensiynau i bobl sydd ar fin ymddeol dair blynedd cyn eu dyddiad ymddeol arfaethedig er mwyn iddynt allu cynllunio'n iawn. Teimlai'r aelodau hefyd mai da o beth fyddai i'r Bwrdd Pensiwn Lleol gyhoeddi cylchlythyr ar ei waith er mwyn i'r staff fod yn ymwybodol fod Bwrdd o'r fath yn bodoli. Ond nodwyd fod adran ar gael ar wefan yr Awdurdod ar gyfer y Bwrdd Pensiwn Lleol.

6 DOGFENNAU'R BWRDD PENSIWN LLEOL

6.1 Cafodd yr aelodau eu hatgoffa fod yr adran y Bwrdd Pensiwn Lleol ar wefan yr Awdurdod yn cynnwys y dogfennau canlynol:

- Cylch Gorchwyl
- Polisi a gweithdrefn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar roi gwybod i'r Rheolydd Pensiynau am Achosion o Dorri'r Gyfraith
- Polisi Gwrthdaro Buddiannau
- Adroddiadau blynyddol
- Agenda a chofnodion cyfarfodydd.

7 AROLWG LLYWODRAETHU'R RHEOLYDD PENSIYNAU

7.1 Rhoddodd y Pennaeth Cyllid wybod i'r aelodau fod y Rheolydd Pensiynau wedi cyhoeddi arolwg ar lywodraethu yn yr hydref; roedd y PSTC a'r Pennaeth Cyllid wedi ei lenwi ar ran y Bwrdd Pensiwn Lleol ac roedd copïau ar gael i'r aelodau.

7.2 Nodwyd bod y Bwrdd Cynghori Cynlluniau yng Nghymru a'r Rheolydd Pensiynau yn edrych ar faterion y Bwrdd Pensiwn Lleol.

8 UNRHYW FATER ARALL

8.1 Holodd Parry Davies am nifer isaf y cyfarfodydd bob blwyddyn, sef dau ar hyn o bryd. Ar ôl trafod, cytunwyd y byddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal ym mis Ebrill, Medi a Ionawr.

9 Y DIWEDDARAF AM Y BWRDD CYNGHORI CYNLLUNIAU

9.1 Aeth Paul Scott i gyfarfod diwethaf y Bwrdd Cynghori Cynlluniau; rhoddodd wybod i'r aelodau fod y cynllun wrthi'n cael ei ailwerthuso gan Adran Actiwari'r Llywodraeth ac mae ymateb am ragor o ddata pensiynau ac adborth wedi cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.